Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Cwpan y Byd

21 Tachwedd 2022

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 25 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

> *Under the FOI I'd like to request information of which members are travelling to Qatar for the World Cup*

Mae ein hymateb i'w gael isod.

Gall Aelodau ofyn Cwestiynau Ysgrifenedig a Llafar i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phresenoldeb gweinidogion yng Nghwpan y Byd. Yn yr un modd, caiff Aelodau ddewis datgelu eu bwriad i fod yn bresennol yng Nghwpan y Byd yn ystod trafodion y Senedd.

Mae'r cwestiynau a'r cyfraniadau hyn ar gael i'r cyhoedd drwy **Gofnod y Trafodion**, sy'n cynnwys blwch chwilio.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

1. ***Para. 26*** *Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol 23/06/2022 - Senedd Cymru (senedd.cymru)*
2. *https://cofnod.senedd.cymru/WrittenQuestion/86282*
3. *https://cofnod.senedd.cymru/WrittenQuestion/86281*
4. ***Paragraffau 212, 222, 223 a 252*** *Cyfarfod Llawn 15/11/2022 - Senedd Cymru (senedd.cymru)*

Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd ar gael yn rhesymol drwy ddulliau eraill.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Hefyd, mae'n ofynnol i Aelodau gofrestru unrhyw fuddiannau perthnasol o fewn wyth wythnos ar ôl cymryd y llw neu gadarnhad a hefyd gofrestru unrhyw newidiadau i'r buddiannau hynny o fewn pedair wythnos.  Os yw Aelod wedi derbyn tocyn i Gwpan y Byd, caiff y Gofrestr hon ei diweddaru - **Cofrestr Buddiannau'r Aelodau (senedd.cymru)**

Hyd yma, nid oes unrhyw Aelod wedi cofrestru eu bod wedi derbyn unrhyw docynnau.

Yn gywir

**Buddug Saer**

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF